Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Carreglefn
# Ysgol Gymuned Carreglefn
# Carreglefn
# Amlwch
# LL68 0PH

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2016**

**gan**

**Dr Prydwen Elfed-Owens**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/08/2016**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Carreglefn yn lleoliad cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i leoli yn Neuadd y Gymuned, ar safle Ysgol Gymuned Carreglefn, awdurdod addysg Ynys Môn. Mae ar agor tri bore'r wythnos ac un prynhawn. Mae'n rhannu'r neuadd gydag asiantaethau eraill.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru ers 2013 i dderbyn hyd at 12 o blant o ddwy a hanner mlwydd oed fesul sesiwn. Ar hyn o bryd, mae 2 blentyn tair oed yn derbyn addysg wedi ei ariannu.

Cymraeg yw iaith aelwyd bob plentyn. Nid oes yr un plentyn yn y grŵp presennol wedi'i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol ac nid oes plentyn o gefndir ethnig.

Mae yna ddau aelod o staff gan gynnwys yr arweinydd sydd yn y swydd ers mis Mai, 2016.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) diwethaf ym mis Hydref 2014, a chan Estyn mis Tachwedd 2006.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- bod ymarferwyr yn creu cymuned gynhwysol a hapus
- eu bod yn ennyn hyder plant a'u hannog i fwynhau dysgu ac ymddwyn yn dda
- eu bod yn darparu cyfleodd da i blant fwynhau ymdrin â llyfrau
- eu bod yn annog y plant i fwyta ac yfed yn iach

Fodd bynnag

- nid yw'r lleoliad yn defnyddio gwybodaeth asesu yn ddigon da i gynllunio camau dysgu nesaf plant
- nid ydynt yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant fwynhau gweithgareddau corfforol egnïol
- mae'r cyfleoedd i blant ddeall y byd ehangach trwy ymweliadau ac ymwelwyr yn brin

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod gan yr arweinydd newydd ymroddiad i ddatblygiad y lleoliad
- bod yr ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm newydd
- bod yr arweinydd yn cydweithio'n effeithiol gyda'r athrawes ymgynghorol a'r Mudiad Meithrin i ddatblygu'r lleoliad ymhellach.
- bod y bartneriaeth rhwng y lleoliad a'r ysgol gynradd yn datblygu'n dda
- bod agwedd yr ymarferwyr tuag at hyfforddiant a datblygiad yn frwdfrydig
- bod swyddogion y Pwyllgor Rheoli yn sicrhau bod y lleoliad yn gynaliadwy ac ar y cyfan yn darparu gwerth da am arian

Fodd bynnag

- nid yw'r arweinydd newydd wedi cael cyfle i ymsefydlu'n llawn eto
- nid yw'r lleoliad yn gwneud defnydd llawn o'u cyllid i ehangu profiadau dysgu plant yn enwedig yn yr ardal tu allan

## Argymhellion

A1 Dathlu llwyddiannau plant a gwneud gwell defnydd o asesu i adnabod camau dysgu nesaf plant i sicrhau her priodol i'r rhai mwy abl

A2 Gwneud defnydd llawn o'r cyllid y mae'r lleoliad yn ei dderbyn i wella ansawdd yr adnoddau ac i ehangu profiadau dysgu plant yn enwedig yn yr ardal tu allan

A3 Darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau corfforol drwy fwynhau gweithgareddau corfforol egnïol

A4 Darparu cyfleoedd i blant ddeall y byd ehangach trwy ymweliadau ac ymwelwyr

A5 Rhoi sylw llawn i'r materion diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Ddim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Ddim yn berthnasol**

Nid yw'n bosib adrodd ar ddatblygiad plant yn eu medrau, yr iaith Gymraeg na'u lles. Mae hyn oherwydd mai ychydig iawn o blant perthnasol oedd yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Ddim yn berthnasol**

Nid yw'n bosib adrodd ar ddatblygiad plant yn eu medrau, yr iaith Gymraeg na'u lles. Mae hyn oherwydd mai ychydig iawn o blant perthnasol oedd yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae lleoliad yn cynllunio profiadau dysgu amrywiol yn yr ardal dan do a thu allan i ennyn mwyniant yr holl blant. Mae'r ymarferwyr yn rhoi sylw priodol i bob maes dysgu gan fodloni egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Mae'r cynlluniau yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau plant i'w galluogi i wneud cynnydd. Maent yn cydlynu gweithgareddau hwyliog a phwrpasol yn gelfydd ar draws y chwe maes dysgu o gwmpas thema sydd yn diddori plant ifanc, megis 'Trychfilod'.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i ddatblygu medrau corfforol manwl plant drwy ddefnydd pwrpasol o offer bach, er enghraifft i gau botymau ar stribedi ffelt i lunio cadwyni lliwgar i greu lindys hir. Serch hynny, mae'r cyfleoedd i blant drin offer mawr dringo ac adeiladu ac i ymuno mewn symudiadau rhydd ac egnïol yn rhy gyfyngedig sydd yn amharu ar eu datblygiad corfforol.

Maent yn darparu cyfleoedd cymwys i blant ddatblygu dealltwriaeth o'u byd a phethau byw o fewn eu themâu. Er enghraifft, wrth astudio priodweddau trychfilod maent yn cymharu siâp, lliw, a symudiadau'r lindys, gwlithyn y coed, Siani flewog a malwod. Yna, maent yn cychwyn gyda'u chwyddwydrau ar helfa trychfilod yn yr ardal tu allan. Fodd bynnag, mae'r defnydd o ymweliadau a chyfraniad ymwelwyr i gyfoethogi'r dysgu am y byd o'u cwmpas ac ehangu eu hymwybyddiaeth o'u hardal leol yn brin.

Mae'r ymarferwyr yn manteisio ar bob cyfle i fodelu, bwydo a chyfoethogi iaith y plant yn effeithiol. Maent yn creu cyfleoedd da i blant wrando ar storiâu cysylltiedig â'u themâu, er enghraifft, wrth ddarllen stori am lindys llwglyd. Maent yn modelu sut i ymdrin a llyfrau yn dda. Maent yn annog plant i ddewis o'r llyfrau amrywiol sydd ar gael yn yr ardal lyfrau i ddatblygu eu diddordeb a'u mwyniant mewn llyfrau.

Maent yn sicrhau siawns rheolaidd i blant ddilyn cyfarwyddiadau; megis yn ystod amser cylch, wrth dacluso ac wrth fwyta eu byrbryd. Enghraifft dda arall yw'r ymgom bwrpasol rhwng ymarferwr a phlentyn wrth iddynt ddysgu sut i ddefnyddio'r cyfrifiadur i greu patrwm lliwgar. Mae hyn yn cefnogi datblygiad plant yn dda i'w galluogi i siarad yn hyderus.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ddeall pwrpas ysgrifennu wrth eu hybu i greu marciau amrywiol a'u hybu i ffurfio llythrennau yn glir. Maent yn trefnu cyfleoedd cyson i blant adnabod eu henwau; megis wrth hunan gofrestru ac wrth ymofyn eu matiau byrbryd.

Maent yn sicrhau cyfleoedd dyddiol i ddatblygu medrau rhifedd plant i rifo ac adnabod rhifolion ar draws pob maes dysgu a thrwy ganu rhigymau rhif. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n systematig i blant baru gwrthrychau o wahanol faint, siâp a lliw yn gywir gyda lluniau. Enghraifft dda o hyn wrth gyfatebu pili pala pinc a melyn bob yn ail i greu patrwm o wahanol liwiau. Maent hefyd yn creu cyfleoedd effeithiol i blant ddysgu a deall geirfa fathemategol wrth drafod trychfilod mawr, bach, hir a byr. Mae'r cyfleoedd hyn yn hybu plant i ddatblygu eu medrau a defnyddio'r eirfa newydd; er enghraifft, wrth greu lluniau a modelau o drychfilod amrywiol.

Mae'r ymarferwyr yn creu cyfleoedd addas i ddatblygu medrau meddwl plant a'u hannog i ddatrys problemau, trwy ddweud eu barn a gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, wrth gyfeirio tegan mecanyddol i lanio ar luniau trychfilod o'u dewis nhw. Mae'r holl ymarferwyr yn fodelau da o iaith ac maent yn cymryd bob cyfle i loywi iaith y plant.

Maent yn cynllunio cyfleoedd da i'r plant ddysgu am eu treftadaeth trwy ddathlu Gŵyl Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Ddewi. Bryd hynny, mae'r plant yn dysgu am wisgoedd, bwydydd a chaneuon traddodiadol Cymreig. Maent yn ehangu dealltwriaeth a gwybodaeth plant o ddiwylliannau eraill yn briodol drwy ddathliadau, lluniau amrywiol a doliau o dras wahanol.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan yr holl ymarferwyr wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant a dealltwriaeth gadarn o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o fedrau plant i ddatblygu annibyniaeth a mynegi eu hunain yn hyderus. Maent oll yn cyfrannu'n gytbwys i'r cynllunio ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwylir iddynt ei wneud.

Mae ystod ac ansawdd y dulliau addysgu'n llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn codi ymwybyddiaeth plant a deffro eu chwilfrydedd trwy eu dewis o themâu, gweithgareddau, caneuon a rhigymau hwyliog. Maent yn ysgogi diddordeb plant mewn geiriau trwy ddarllen storiâu'n ddyddiol a modelu sut ymdrin â llyfrau.

Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd pwrpasol i blant ddysgu trwy chwarae a phrofiadau uniongyrchol. Maent yn sicrhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn ac eraill a gânt eu harwain gan oedolyn. Mae'r ymarferwyr yn cyflwyno tasgau ffocws ysgogol i ennyn diddordeb naturiol plant.

Enghraifft dda o hyn yw olrhain cylch bywyd lindys gan gyfuno'r cyfle i ddatblygu medrau rhifedd wrth gyfri'r bwydydd iach amrywiol maent yn ei fwyta. Maent oll yn sicrhau bod y plant yn glir am yr hyn a ddisgwylir ganddynt fel eu bod yn dyfalbarhau ar dasgau yn llwyddiannus.

Mae llif y sesiynau yn dda ac mae ymarferwyr yn cyflwyno gweithgareddau sy'n ysgogi'r plant yn effeithiol. Mae pob ymarferwr yn cynnig cymhelliant pendant ac ysgogol wrth ymyrryd yng ngweithgareddau rhydd y plant. Er enghraifft, wrth gwestiynu'n gelfydd ac wrth fodelu iaith trwy ail adrodd geirfa a chymalau newydd. Maent yn cymell plant yn effeithiol iawn i ddefnyddio iaith newydd. Mae'r holl ymarferwyr yn rheoli ymddygiad yn naturiol ac effeithiol iawn. Dilynant drefn gyson o roi cydnabyddiaeth hael i blant am eu hymdrechion gan ddangos parch tuag at bob un.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac maent yn cofnodi asesiadau i fesur eu cynnydd. Serch hynny, nid ydynt yn rhoi digon o sylw i arddangos llwyddianau plant, er enghraifft ar y waliau. Nid ydynt bob amser yn defnyddio asesu'n ddigon effeithiol i adnabod camau dysgu nesaf plant i sicrhau her briodol i'r rhai mwy abl.

Maent yn cadw rhieni'n hysbys am gynnydd eu plant drwy drafodaethau anffurfiol gydol y flwyddyn. Mae'r rhieni yn derbyn cofnod deniadol o waith eu plentyn ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Mae'r arfer o gynnwys rhieni yn y broses o asesu i'w galluogi i gyfrannu i ddatblygiad eu plant ar y gweill ond nid yw wedi gwreiddio'n llawn eto.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus, ofalgar sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch plant. Mae gan yr holl staff gymwysterau a phrofiad addas ac mae'r gymhareb o oedolion i blant yn hael. Mae'r trefniadau i gefnogi iechyd a lles plant yn dda. Mae plant yn mwynhau byrbryd iach ac mae ymarferwyr yn arddangos ymwybyddiaeth gwerth chweil o ofal plant. Enghreifftiau penodol o hyn yw bod ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta. Maent hefyd yn torri ffrwythau i faint addas ar gyfer plant ifanc. Maent yn trefnu cyfleoedd buddiol i blant gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau egnïol i gadw'n iach a heini.

Mae systemau priodol yn eu lle i nodi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r lleoliad yn manteisio ar gymorth gan asiantaethau arbenigol fel bo'r gofyn.

Mae trefniadau'r lleoliad i gefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn fuddiol. Mae'r plant yn cael cyfleoedd priodol i fyfyrio, er enghraifft, wrth arsylwi ar drychfilod amrywiol yn eu cynefin. Maent hefyd yn rhyfeddu ar sut mae dau liw o baent yn gallu troi'n lliw hollol wahanol. Maent yn cyd-adrodd gweddi syml cyn bwyta i greu awyrgylch dawel, myfyriol.

Mae'r holl staff yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu anniddigrwydd. Maent oll yn fodelau da o garedigrwydd a thegwch ac mae'r plant yn eu hefelychu. Maent yn hybu datblygiad cymdeithasol drwy ysgogi'r plant i ddatblygu agweddau goddefgar ac i ddysgu cydweithio'n hapus a chymryd eu tro'n gwrtais wrth chwarae.

Maent yn annog plant i ddysgu am ddiwylliannau eraill yn dda trwy ddathlu Blwyddyn Newydd Tseiniaidd. Bryd hynny, byddant yn gwisgo i fyny, symud i gerddoriaeth a mwynhau blasu bwydydd Tseiniaidd. Mae’r ymarferwyr hefyd yn codi ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau eraill wrth dynnu sylw at luniau a doliau o wahanol wledydd.

Mae’r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd yn briodol. Mae'r plant yn cael cyfleoedd addas yn ystod amser byrbryd i ailgylchu bwydydd a phapur gwastraff ar wahân.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau addas i amddiffyn plant. Maent yn recriwtio staff yn ddiogel ac mae’r ymarferwyr yn ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd a phriodol yn y maes. Nid yw’r arweinwyr yn cynnal asesiadau risg yn ddigon rheolaidd er mwyn sicrhau diogelwch y lleoliad. Yn ystod yr arolwg, nodwyd bod rhai agweddau angen sylw brys. Erbyn diwedd yr arolwg, datryswyd y rhan fwyaf ohonynt. O ganlyniad, mae trefniadau lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae’r lleoliad yn gymuned gartrefol a chynhwysol. Mae iddo gyflenwad o ymarferwyr a chanddynt gymwysterau cadarn a phrofiad addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae’r berthynas rhwng yr oedolion a’r plant yn un naturiol a chynhaliol. Mae hyn yn sicrhau fod plant yn setlo’n sydyn a theimlo’n hapus a diogel. Mae’r ymarferwyr yn darparu profiadau pwrpasol sy’n ennyn diddordeb plant yn llwyddiannus ac am gyfnodau sylweddol. Maent yn sicrhau bod yr holl blant yn manteisio’n gyfartal ar amrediad o weithgareddau. O ganlyniad, mae plant yn cymryd rhan yn dda ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

Mae’r ymarferwyr yn defnyddio’r lle sydd ar gael iddynt yn effeithiol. Mae’r amgylchedd dan do yn ddifyr ac ysgogol ac wedi ei drefnu’n ardaloedd effeithiol megis cornel ddarllen cyfforddus, cegin, ac ardal dawel ar gyfer amser cylch. Serch hynny, mae’r gofod i arddangos a dathlu gwaith y plant yn brin iawn. Mae’r ardal awyr agored yn gyfyng sy’n amharu ar y ddarpariaeth, megis i chwarae’n rhydd ac egnïol. Nid yw’r lleoliad yn manteisio’n llawn ar gyfleoedd i wahodd ymwelwyr i gyfoethogi addysg plant.

Ar y cyfan, mae gan y lleoliad gyflenwad o adnoddau pwrpasol o ansawdd. Yn yr ardal dan do, mae’r adnoddau yn hybu’r dysgu yn dda; er enghraifft, sachau stori, gemau bwrdd i ddidoli a chyfatebu lliw a rhif, siart dywydd a llyfrau amrywiol a lliwgar sydd yn addas i oedran plant. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar brofiadau dysgu plant ac ar ddatblygiad eu medrau llythrennedd a chreadigol. Fodd bynnag, yn yr ardal tu allan, nid yw rhai adnoddau o ansawdd priodol i hybu dysgu’r plant, megis yr offer dringo a’r cafnau dwr a thywod.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan yr arweinydd newydd weledigaeth glir i ddyfodol y lleoliad ac mae wedi ei weithredu’n effeithiol mewn cyfnod byr. Mae’r ymarferwr yn cefnogi’r weledigaeth ac

mae'r ddwy yn cydweithio'n effeithiol fel tîm.  Fodd bynnag, nid yw'r holl brosesau arweinyddiaeth, megis cynnal asesiadau risg rheolaidd, wedi cael amser i ymsefydlu'n llawn.

Mae gan y ddwy ddealltwriaeth dda o'u rôl a'u dyletswyddau dyddiol ac yn meddu ar ddisgwyliad uchel ohonynt eu hunain.  Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu ystod eang o weithgareddau pwrpasol iddynt.  O ganlyniad, mae hyn yn arwain at ethos cartrefol lle mae'r plant yn hapus ac yn meithrin hyder ac annibyniaeth yn gyflym.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol ac yn sefydlog gyda dealltwriaeth glir o werth y lleoliad i'r ysgol a'r gymuned.  Maent wedi derbyn holl bolisïau a phrosesau'r Mudiad Meithrin sydd yn cynnig sail a strwythur rheolaeth sicr i'r lleoliad.  Maent yn ymwybodol o'r meysydd i'w gwella.  Fodd bynnag, nid ydynt yn ddigon ffurfiol wrth weithredu ac ariannu targedau eu cynllun datblygu.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.  Maent yn sicrhau bod ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant, yn ogystal â'u bod yn darparu cyfleoedd da i ddysgu am fwyta'n iach.

**Gwella ansawdd:  Digonol**

Mae gan yr arweinydd newydd ymrwymiad cadarnhaol i wella'r lleoliad yn barhaus. Mae'r tîm yn trafod sut i wella'r ddarpariaeth. Mae arweinydd yn dechrau defnyddio amrediad o arfarniadau allanol yn effeithiol er mwyn ffocysu ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth.

Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau a meysydd gwelliant y lleoliad. Maent yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn glir gyda chymorth athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol ac o ganlyniad,  mae'r broses hunan arfarnu'n effeithiol.

Mae'r lleoliad yn trosglwyddo llawer o'r wybodaeth i'r cynllun datblygu fel bod y berthynas rhwng y ddwy ddogfen yn glir.  Mae'r dystiolaeth yn dangos effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, yn enwedig mewn datblygu medrau TGCh.  Fodd bynnag, nid oes ganddynt broses systematig i fwydo a diweddaru'r ddogfen.  Felly nid yw'n ddigon defnyddiol i adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol nac i adrodd i'r pwyllgor rheoli i sicrhau eu cefnogaeth wrth weithio tuag at dargedau penodol.

Gweithredodd yr arweinwyr yn effeithiol yn dilyn arolygiad diwethaf Estyn, gan sicrhau, er enghraifft, wrth ddatblygu trefn gynllunio well i wella'r ddarpariaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r lleoliad wedi datblygu ystod fuddiol o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n briodol at les a gofal plant, ansawdd y ddarpariaeth ac ar arweinyddiaeth.

Mae'r bartneriaeth gyda'r rheini yn gadarnhaol iawn.  Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth bwrpasol â rhieni am gynnydd a lles eu plant trwy gysylltiad anffurfiol. Cyflwynant 'Llyfr Trysor' - cofnod o brofiadau a gwaith plant - iddynt ar ddiwedd eu

cyfnod yn y lleoliad. Byddant yn rhannu unrhyw newidiadau arwyddocaol gyda nhw wyneb yn wyneb wrth hebrwng eu plant yn ôl a blaen o’r lleoliad. Maent yn rhannu polisïau perthnasol a gwybodaeth am ffocws eu themâu mewn llyfryn cynhwysfawr ac ar eu hysbysfwrdd yn y neuadd. Mae’r rhieni a’r gymdeithas leol yn cefnogi'r lleoliad yn gyson trwy weithgareddau codi arian.

Mae’r bartneriaeth gyda’r ysgol leol yn datblygu’n dda ac mae’r pennaeth newydd yn aelod o’r pwyllgor rheoli sydd yn hybu cysondeb wrth i rieni ddod i ddiwedd eu cyfnodau ar y pwyllgor. Mae’r plant yn ymweld â’r ysgol yn ystod tymor yr haf sydd yn hybu trosglwyddiad esmwyth i’r plant i gam nesaf eu haddysg.

Nid yw’r ymarferwyr yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn ddigon rheolaidd i hybu dealltwriaeth plant o’r byd o’u cwmpas a’u hardal leol drwy fanteisio ar ymwelwyr i’r lleoliad a thrwy eu tywys ar ymweliadau pwrpasol.

Mae’r arweinydd yn cydweithio’n effeithiol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu’r Mudiad Meithrin sydd yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad drwy’r cyngor ymarferol a ddarperir ganddynt.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithlon o staff i gefnogi’r addysgu a’r dysgu. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod gan yr ymarferwyr gymwysterau a phrofiad addas i weithio gyda phlant ifanc. Gwnânt ddefnydd priodol o fedrau a phrofiad staff i gynnal y ddarpariaeth. Mae agwedd yr ymarferwyr tuag at hyfforddiant a datblygiad yn frwdfrydig ac maent yn gwneud cysylltiadau da a lleoliadau eraill i rannu arfer dda.

Mae prosesau addas ar waith i reoli perfformiad ymarferwyr trwy waith cadeirydd y Pwyllgor Rheoli a chefnogaeth swyddog datblygu’r Mudiad Meithrin. Fodd bynnag, nid yw’r broses o ddynodi anghenion datblygiad staff unigol i gefnogi targedau cynllun datblygu’r lleoliad wedi gwreiddio’n llawn eto.

Mae’r arweinwyr yn darparu ystod dda o adnoddau pwrpasol i’r ardal dan do. Mae’r cyflenwad amrywiol o lyfrau deniadol yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llythrennedd plant. Er hynny, mae adnoddau’r ardal tu allan yn brin, rhai ohonynt ddim o’r ansawdd priodol i hybu datblygiad plant ar draws bob maes dysgu.

Mae’r Pwyllgor Rheoli yn gofalu bod y lleoliad yn gynaliadwy drwy sicrhau arian wrth gefn. Yn ddiweddar, maent wedi creu cynllun arfaethedig yn erbyn targedau sydd yn clustnodi adnoddau i ehangu profiadau dysgu plant yn enwedig yn yr ardal tu allan. O ystyried hyn a’r ddarpariaeth briodol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Dr Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |